WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Finance Committee
FIN(4)-20-13 (papur 3)
13 Tachwedd 2013

Hydref 2013
www.wao.gov.uk

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2015

Paratowyd a gosodwyd ar y cyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Isobel Garner (Cadeirydd), Steven Burnett, David Corner, Christine Hayes, Peter Price a Huw Vaughan Thomas[1]
**Swyddfa Archwilio Cymru**

1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 1(2)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhinwedd ei swydd. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd, fodd bynnag, yn endid cyfreithiol ar wahân.

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall pwyllgor cyfrifol y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Oherwydd bod yn rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno 5

Cronfa Gyfunol Cymru 5

Ffioedd Archwilio 6

Adolygiad hirdymor 7

## Adran 1 - Ein gwaith 8

Cyfnewid arfer da 9

Gwaith nas cynlluniwyd 9

## Adran 2 - Amcangyfrif o incwm a gwariant 2014-15 12

Cyllideb refeniw 2014-15 12

Gwariant 13

Incwm a chyllid 16

Meysydd lle y ceir ansicrwydd 18

Cyllideb cyfalaf 2014-15 20

Gofyniad arian parod net 2014-15 20

## Atodiadau

Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a’r archwilwyr a benodir ganddo 21

Atodiad 2 - Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015 22

Atodiad 3 - Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar waith y Tîm Cyfnewid Arfer Da 24

# Adroddiad cryno

1 Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys dwy adran:

a Adran 1: Ein gwaith

b Adran 2: Amcangyfrif o incwm a gwariant 2014-15

2 Yn Adran 1, rhoddwn:

a grynodeb o flaenoriaethau strategol ein gwaith dros y cyfnod rhwng 2013 a 2016 (paragraff 1.2);

b esboniad o'r effaith rydym yn ei chael drwy ein gwaith ar y broses o gyfnewid arfer da (paragraffau 1.5 i 1.7);

c trosolwg o'r gwaith rydym yn ei wneud yn 2013-14 i ymateb yn gyflym i faterion wrth iddynt godi gan ddefnyddio'r arian ychwanegol gwerth £250,000 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (paragraffau 1.8 i 1.13).

3 Yn Adran 2, rhoddwn grynodeb o'n cyllideb amcangyfrifedig ar gyfer 2014-15, ynghyd â sylwadau ar brif elfennau'r gyllideb honno.

4 Nodir prif nodweddion ein cynnig cyllidebol ym mharagraffau 2.1 i 2.4.

## Cronfa Gyfunol Cymru

5 Cyfanswm yr arian rydym yn ei geisio drwy'r amcangyfrif hwn yw £5,974,000, sef cynnydd o £543,000 o gymharu â chyfanswm yr arian y gofynnwyd amdano yn 2013-14, sef £5,431,000.

| | 2013-14 £'000 | 2014-15 £'000 |
|---|---|---|
| Refeniw | 5,224 | 5,876 |
| Amcangyfrif atodol 2013-14 | 187 | 0 |
| Cyfalaf | 20 | 98 |

6 Fodd bynnag, mae £652,000 o'r £5,974,000 yn ymwneud yn benodol â'r newidiadau deddfwriaethol canlynol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth:

a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (paragraff 2.9) y disgwylir iddo osod dyletswyddau newydd ar yr Archwilydd Cyffredinol, y mae angen i ni geisio swm o £122,000 o arian datblygu ychwanegol ar ei gyfer;

b newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n golygu bod angen i astudiaethau llywodraeth leol sy'n costio £530,000 gael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa Gyfunol) ac nid, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, drwy ffioedd llywodraeth leol (£353,000) ac arian grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) (£177,000) (nid yw'r newid hwn yn effeithio ar floc Cymru yn gyffredinol (paragraffau 2.22 i 2.24)).

7 Heb y costau ychwanegol hyn, erys ein cais am refeniw ar gyfer 2014-15 yn ddigyfnewid ers y £5,224,000 y gofynnwyd amdano yn ein hamcangyfrif ar gyfer 2013-14. Gwnaed hynny'n bosibl drwy leihau costau a sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn ein harferion gwaith. Er enghraifft, yn ystod 2013-14, rydym wedi gwneud mwy o ddefnydd o staff, gan leihau costau staff £200,000 a lleihau costau contractwyr £50,000. Er gwaethaf cynnydd yng nghost tanwydd a chyflenwadau eraill, rydym hefyd yn lleihau ein cyllideb ar gyfer costau swyddfa yn 2014-15 ac yn pennu targedau effeithlonrwydd arian parod o 1.5 y cant o leiaf (2.9 mewn termau real) ar gyfer pob un o'n deiliaid cyllidebau.

8 Mae ein cais am arian cyfalaf wedi cynyddu £78,000 mewn perthynas â gwariant untro i wella ein mynediad i'r rhyngrwyd, cynyddu capasiti'r gweinydd a systemau storio, a gwella ein cyfleusterau fideogynadledda paragraff 2.41.

9 Nodwn ym mharagraffau 2.33 i 2.39 rai o'r prif feysydd lle rydym yn wynebu ansicrwydd ar hyn o bryd, y gallai'r rhai mwyaf sylweddol arwain at gais am arian ychwanegol. Efallai y bydd angen i ni hefyd geisio cymeradwyaeth i gadw incwm ychwanegol o ffioedd archwilio yn 2014-15 i dalu am gostau ychwanegol lle y bydd hyn yn deillio o waith nas cynlluniwyd, er enghraifft ymchwiliadau arbennig.

## Ffioedd Archwilio

10 Fel y nodir yng nghais yr Archwilydd Cyffredinol am arian ychwanegol yn 2013-14, cafodd yr Archwilydd Cyffredinol ddyfarniad gan CThEM ym mis Rhagfyr 2012 yn ei gwneud yn ofynnol, o 1 Ebrill 2013, iddo beidio â chodi TAW ar ffioedd archwilio ar gyfer cyrff llywodraeth leol a'r GIG. Mae'r dyfarniad hwn, a fydd hefyd yn gymwys i Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014 (paragraffau 2.16 i 2.17), wedi arwain at gynnydd na ellir ei osgoi o £600,000 y flwyddyn yn ein sylfaen gostau.

11 Er y gallwn gwmpasu cynnydd cyffredinol mewn costau drwy sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd parhaus, ni allwn wneud arbedion ar y lefel hon yn y byrdymor o'n sylfaen gostau, gan ei bod yn sefydlog i raddau helaeth oherwydd yr angen i gyflawni rhaglen waith statudol benodol. Nid oes gennym unrhyw ddewis, felly, ond cynyddu incwm a gynhyrchir o ffioedd archwilio 3.8 y cant os ydym am osgoi gwneud cais ychwanegol am £600,000 o'r Gronfa Gyfunol.

12 Rydym wrthi'n adolygu sut y gall y cynnydd cyffredinol hwn effeithio ar gyrff a archwilir, gan ddadansoddi ar yr un pryd effaith bosibl newidiadau i'n gyfundrefn ffioedd sy'n deillio o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fodd bynnag, fel y nodwn ym mharagraff 2.25, mae ffactorau cydbwyso a fyddai'n gwrthbwyso effaith unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn sylweddol ar gyfer y mwyafrif o'r cyrff a archwilir gennym, sef:


- a **llywodraeth leol:** bwriadwn ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn y disgwyliwn eu dal ar 31 Mawrth 2014 i gyrff llywodraeth leol, a allai leihau effaith unrhyw gynnydd mewn ffioedd am ddwy flwyddyn ariannol;
- b **Y GIG:** am nad oedd modd i gyrff y GIG adennill y TAW a godwyd ar ffioedd archwilio yn flaenorol, o 1 Ebrill 2013 mae holl gyrff y GIG wedi cael budd o ostyngiad o 16.7 y cant mewn ffioedd archwilio; byddai hyn yn gwneud mwy na gwrthbwyso unrhyw gynnydd angenrheidiol yn eu ffioedd archwilio.

## Adolygiad hirdymor

**13** Dengys Arddangosyn 1 y duedd gyffredinol yn ein gwariant o 2009-10 i'n sefyllfa arfaethedig ar gyfer 2014-15, ynghyd â'r duedd gyffredinol yn ein hincwm o ffioedd archwilio dros yr un cyfnod. Fel y dangosir yn yr arddangosyn hwn, er gwaethaf y cynnydd mewn costau na ellir ei osgoi a nodwyd gennym yn yr amcangyfrif hwn, rydym wedi llwyddo i leihau ein gwariant 19 y cant mewn termau real[2] dros y cyfnod hwn o chwe blynedd (gostyngiad o 10 y cant mewn termau arian parod o £26.1 miliwn yn 2009-10 i ragamcan o £23.5 miliwn yn 2014-15). Yn yr un modd, dengys yr arddangosyn hwn, er gwaethaf yr angen gorfodol i gynyddu ein ffioedd archwilio yn 2014-15, rydym wedi llwyddo i ostwng ein hincwm blynyddol o ffioedd 21.6 y cant mewn termau real dros y cyfnod hwn o chwe blynedd. Mewn termau arian parod, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad mewn incwm o ffioedd o £18.9 miliwn yn 2009-10 i swm arfaethedig o £16.5 miliwn yn 2014-15.

**14** Fel yr eglurwyd ym mharagraff 2.3, rydym wedi rhoi prosiect ar waith i adolygu ein model gweithredu hirdymor er mwyn cyflawni ein hamcan o fod yn swyddfa archwilio fodern a chynaliadwy, ac edrychwn ymlaen at gyflwyno adroddiad ar ein cynnydd mewn amcangyfrifon yn y dyfodol.

**Arddangosyn 1 - Gostyngiad mewn termau real mewn gwariant ac incwm o ffioedd rhwng 2009-10 a 2014-15**




2 Cyfrifwyd y gostyngiad mewn termau real gan ddefnyddio Datchwyddwyr CMC Llywodraeth y DU a ddiweddarwyd ar 16 Medi 2013.

# Adran 1 - Ein gwaith

1.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ymgymryd â gwaith i gefnogi ein nod cyffredinol o hysbysu pobl Cymru a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth, gan helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddeall sut i wella canlyniadau ar yr un pryd.

1.2 Er mwyn hyrwyddo'r nod cyffredinol hwn, ym mis Ebrill 2013, lansiodd yr Archwilydd Cyffredinol ein *Strategaeth ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2013-16*. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein chwe phrif flaenoriaeth strategol ar gyfer y cyfnod strategol fel y crynhoir yn Arddangosyn 2.

1.3 Rhoddwyd £500,000 o arian ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol yn 2013-14 er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni elfennau cychwynnol y strategaeth hon; £250,000 i gefnogi'r gwaith o gyfnewid arfer da; a £250,000 i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiadau nas cynlluniwyd o faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd. Heb yr arian hwnnw, byddai effaith ar allu'r sefydliad i gyflawni astudiaethau cenedlaethol a gynlluniwyd ymlaen llaw.

1.4 Rhoddwn grynodeb isod o'r modd y mae'r arian ychwanegol hwnnw yn cael ei ddefnyddio hyd yma yn ystod 2013-14.

**Arddangosyn 2 - Blaenoriaethau strategol 2013-2016**

| Blaenoriaethau strategol |
|---|
| Ymgymryd â gwaith archwilio gyda phwyslais ar galedi. |
| Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da. |
| Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. |
| Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg. |
| Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio. |
| Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol. |

## Cyfnewid arfer da

1.5 Ar 2 Hydref 2013, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith ein Tîm Cyfnewid Arfer Da yn dilyn yr arian ychwanegol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer y gwaith hwn.

1.6 Mae'r llythyr hwnnw (Atodiad 3) yn nodi nifer o arwyddion calonogol o ddatblygiad y gwaith hwn, gan gynnwys:

- a **Nifer y bobl sy'n ymweld â'r wefan:** Cafwyd dros 33,000 o ymweliadau â thudalennau gwe y Tîm Cyfnewid Arfer Da ers dechrau'r flwyddyn sy'n cyfateb i dros 150 o ymweliadau bob diwrnod gwaith.

- b **Seminarau dysgu a rennir:** Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o drosglwyddo gwybodaeth o safon sy'n cael effaith sylweddol. Ers dechrau'r flwyddyn, rydym wedi cynnal wyth seminar dysgu a rennir, a fynychwyd gan 322 o bobl. Mae'r dull penodol a ddatblygwyd gan y Tîm Cyfnewid Arfer Da yn arwain at adborth cadarnhaol iawn yn gyson. Mae rhwng 80 a 96 y cant o'r cynrychiolwyr sydd wedi mynychu seminarau dysgu a rennir wedi dweud eu bod yn 'ddefnyddiol iawn' iddynt yn eu rolau.

- c **Defnyddio technoleg ddigidol i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac ennyn diddordeb:** Mae'r tîm wedi bod yn defnyddio Twitter i gyrraedd cynulleidfa ehangach y tu hwnt i'r bobl sy'n mynychu ein seminarau. Mewn rhai achosion, mae'r wybodaeth a gyhoeddir ar Twitter yn ystod seminar wedi cyrraedd dros 35,000 o bobl - ymhell y tu hwnt i'r 40 o bobl yn yr ystafell.

- ch **Dod â phrofiad allanol i Gymru:** Mae'r Tîm Cyfnewid Arfer Da wedi sicrhau arbenigedd o'r tu allan i Gymru ar sawl achlysur. Mae hyn wedi cynnwys sefydliadau sector preifat, megis Diageo ac Emirates Aluminium, cyrff archwilio cyhoeddus o dramor megis Audit New Zealand, a sefydliadau yn y trydydd sector gan gynnwys Scottish Improvement Service.

1.7 Un o'r meysydd y mae'r Tîm Cyfnewid Arfer Da yn gweithio arno ar hyn o bryd yw sut i fesur effaith ei waith mewn maes cymhleth sy'n datblygu'n gyflym. Mae nifer o weithgareddau a mesurau effaith yn cael eu datblygu a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn eu herbyn mewn adroddiadau blynyddol ac interim yn y dyfodol.


## Gwaith nas cynlluniwyd

1.8 Rhoddwyd adnodd ychwanegol gwerth £250,000 i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn sicrhau y gall gynnal ei raglen gwerth am arian a gynlluniwyd ymlaen llaw y bwriedir iddi sicrhau y rhoddir sylw cynhwysfawr i'r sector cyhoeddus yng Nghymru tra'n sicrhau bod modd ymateb yn gyflym i brosiectau y mae angen eu cyflawni ar frys heb orfod gohirio gwaith a gynlluniwyd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn parhau i roi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus drwy gyflawni ei raglen o astudiaethau, darparu briffiau ac ymateb i ohebiaeth.

1.9 Dengys Arddangosyn 3 y modd y mae'r arian hwn eisoes wedi cael ei neilltuo hyd yma yn 2013-14 ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd.

1.10 Rhydd Arddangosyn 4 grynodeb byr am bob darn o waith a nodwyd yn Arddangosyn 3.

**Arddangosyn 3 - Arian ychwanegol a neilltuwyd eisoes ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd**




**1.11** Fel y dangosir yn Arddangosyn 3, hanner ffordd drwy 2013-14 mae'r holl arian a ddyrannwyd ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd namyn £80,000 wedi'i neilltuo i adolygiadau ar frys. Os bydd rhagor o waith o'r fath yn codi yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd angen i ni geisio arian ychwanegol drwy amcangyfrif atodol er mwyn i ni gynnal y gwaith hwnnw.

**1.12** Mae Atodiad 1 yn cynnwys crynodeb o brif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ym meysydd llywodraeth leol, llywodraeth ganolog a'r GIG.

**1.13** Yn ystod 2014-15, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau interim a blynyddol a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith rydym yn ei wneud i nodi effaith ein gwaith fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar amcangyfrif 2013-14 yr Archwilydd Cyffredinol.

## Arddangosyn 4 - Crynodeb o weithgareddau nas cynlluniwyd

| Gweithgareddau nas cynlluniwyd | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | • Adolygiad ar y cyd ag Arolygiad Gofal Iechyd Cymru o'r heriau corfforaethol, clinigol ac ariannol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.<br>• Daeth yr adroddiad ar y cyd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu a strwythur sefydliadol y bwrdd iechyd yn amharu ar ei allu i nodi problemau a all godi mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch gofal cleifion yn ddigonol. |
| Ariannu Canolfan Cywain yn y Bala drwy arian cyhoeddus | • Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am fethiant Canolfan Cywain yn y Bala, a oedd wedi cael dros £2 filiwn o arian cyhoeddus, cynhaliwyd ymchwiliadau cychwynnol i'r broses o ariannu'r ganolfan drwy arian cyhoeddus a'r penderfyniad dilynol i'w chau.<br>• Rydym bellach yn cynnal ymchwiliad manwl. Mae'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a wnaed ynghylch ariannu'r fenter drwy arian cyhoeddus, gan gynnwys y camau a gymerwyd i liniaru'r risgiau (a'r colledion) a'r gwersi i'w dysgu o'r achos hwn. |
| Y Cyswllt Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd | • Fel y cytunwyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae papur briffio yn cael ei lunio ar gyfer y pwyllgor yn dilyn gohebiaeth yn nodi pryderon am werth am arian y Cyswllt Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd.<br>• Bydd y papur briffio hwn yn nodi trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ei gymhorthdal blynyddol gwerth £1.2 miliwn ar gyfer y cyswllt awyr, gan gynnwys caffael a rheoli contractau a thystiolaeth mewn perthynas â gwerth am arian. |
| Cyflog uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus | • Fel y cytunwyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf, mae papur briffio'n cael ei lunio ar gyfer y pwyllgor i gefnogi ei gynlluniau ar gyfer ymchwiliad byr i gyflog uwch reolwyr.<br>• Bydd y papur hwn yn nodi'r fframweithiau'n sy'n rheoli cyflog a buddiannau uwch reolwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn defnyddio ein gwaith archwilio ariannol i ddwyn ynghyd ddadansoddiad o gyfraddau cyflog uwch reolwyr. |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | • Mewn ymateb i bryderon a godwyd ym mis Medi 2013 gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae adolygiad ar y cyd o Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael ei gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.<br>• Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu ar y dull mwyaf priodol o gyflwyno canlyniadau'r gwaith hwn unwaith y byddant yn hysbys. |

# Adran 2 - Amcangyfrif o incwm a gwariant 2014-15

## Cyllideb refeniw 2014-15

2.1 Ceir crynodeb o'n hamcangyfrif o'n hincwm a'n gwariant refeniw ar gyfer 2014-15 yn Arddangosyn 5.

2.2 Ceir crynodeb o'r prif faterion i'w nodi isod:

a Ac eithrio rhai costau a chyfrifoldebau newydd penodol, nid ydym yn ceisio arian ychwanegol, gan ein bod wedi gallu ymdrin ag amrywiaeth o bwysau o ran chwyddiant a chost drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd cynyddol, gan gynnwys mesurau megis:

– **cyfraddau defnyddio gwell ymhlith staff** (h.y., mae staff yn treulio mwy o amser ar waith archwilio cynhyrchiol a llai o amser ar weithgareddau cymorth ategol ac anghynhyrchiol), sydd wedi arwain at ostyngiadau rheolaidd gwerth £50,000 o ran y defnydd a wneir o gontractwyr byrdymor;

– **newid cymysgedd sgiliau staff,** sydd wedi lleihau costau parhaus £200,000;

– **gwneud defnydd mwy o effeithiol o gyflenwadau a gwasanaethau,** lleihau costau swyddfa a chostau ynni er gwaethaf prisiau cynyddol, a phennu targedau arbedion mewn termau reol ar gyfer deiliaid cyllidebau unigol.

b Fel rhan o'n hymrwymiad i wella safonau gweithdrefnau rheoli ariannol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac er mwyn sicrhau bod ein staff mewn sefyllfa dda i gefnogi cyrff a archwilir i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a nodi meysydd i'w gwella, rydym yn buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o ddysgu a datblygu ein staff archwilio ac yn cynyddu nifer y graddedigion dan hyfforddiant a gaiff eu recriwtio gennym bob blwyddyn.

c Mae angen i ni gynyddu incwm o ffioedd archwilio 3.8 y cant ar gyfartaledd er mwyn ariannu cynnydd sylweddol o £600,000 mewn TAW na allwn ei hadennill yn sgil dyfarniad TAW gan CThEM. Fel yr amlinellwn ym mharagraff 2.25, fodd bynnag, mae ffactorau cydbwyso sy'n gwrthbwyso effaith y cynnydd arfaethedig hwn ar gyfer y mwyafrif o'r cyrff a archwilir gennym.

d Rydym yn ceisio cynyddu ein harian refeniw o'r Gronfa Gyfunol £652,000 i £5,876,000 er mwyn:

– Ariannu costau ychwanegol gwerth £122,000, sy'n deillio'n uniongyrchol o'r ddyletswydd newydd y disgwylir ei gosod ar yr Archwilydd Cyffredinol yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig.

– Ymateb i newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 mewn perthynas ag ariannu astudiaethau llywodraeth leol: mae'r newidiadau statudol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ariannu'r gwaith hwn drwy'r amcangyfrif (sydd wedi cynyddu £530,000) yn hytrach na thrwy ffioedd (sydd wedi gostwng £353,000) ac arian grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (sydd wedi gostwng £177,000). Yn

bwysig ddigon, nid fydd unrhyw newid cyffredinol i'n cais am arian bloc Cymru o ganlyniad i'r newid hwn.

2.3 Rydym wrthi'n gwneud gwaith, sy'n ystyried yr holl ffyrdd rydym yn gweithredu fel sefydliad, er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad modern a chynaliadwy sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Edrychwn ymlaen at roi diweddariad pellach ar y gwaith hwn yn ein hamcangyfrif ar gyfer 2015-16.

2.4 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio adnoddau i gyflogi staff a thalu costau cysylltiedig, gwneud taliadau i gwmnïau contractwyr sy'n gwneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a darparu'r seilwaith a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni ein gwaith. Gwnawn sylwadau yn y paragraffau canlynol ar brif nodweddion ein cyllideb refeniw ar gyfer 2014-15.

## Gwariant

### Costau staff

2.5 Caiff tua 69 y cant o'n hadnoddau refeniw eu defnyddio i gyflogi tua 240 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod 2014-15.

2.6 Paratowyd ein cyllideb costau staff ar gyfer 2014-15 ar sail y dybiaeth na fydd cyfanswm ein bil cyflogau yn cynyddu mwy nag un y cant ar gyfartaledd, yn unol â chanllawiau Trysorlys EM ar gyfer adrannau'r llywodraeth, yn ogystal â newidiadau cytundebol eraill, ac y caiff ei wrthbwyso gan ostyngiadau sy'n deillio o weithredu cynllun gwerthuso swyddi blaenorol. Cynlluniwyd ein strwythur gwobrwyo i'n galluogi i barhau'n gystadleuol â chwmnïau a sefydliadau eraill mewn perthynas â rolau tebyg a'n helpu i gadw aelodau o staff y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi buddsoddi'n sylweddol yn eu datblygiad personol a phroffesiynol dros nifer o flynyddoedd.

2.7 Lle bo arian ar gael, rydym yn gweithredu rhaglen ymadael yn wirfoddol parhaus a gynlluniwyd i gefnogi ein hamcanion tymor hwy o ran cynllunio'r gweithlu a helpu i leihau costau'n barhaus. Rydym bellach yn gwneud arbedion o ymadawiadau gwirfoddol blaenorol drwy arbedion parhaus mewn costau staff.

2.8 Rydym wedi llwyddo i leihau costau staff drwy wella cyfraddau defnyddio ymhlith staff, sydd wedi arwain at ostyngiad o £50,000 mewn costau i gontractwyr, a gwneud newidiadau o ran cymysgedd sgiliau staff, sydd wedi lleihau costau parhaus £200,000 o gymharu â 2013-14.

2.9 Nododd ein Hasesiad o Effaith goblygiadau'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer Llywodraeth Cymru ei bod yn debygol y byddem yn wynebu costau staff ychwanegol gwerth tua £122,000 y flwyddyn ar waith datblygu yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r darpariaethau newydd a gynigiwyd ar gyfer y Bil. Gan nad yw'r Bil wedi'i gyhoeddi eto, mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a thrafodaethau â swyddogion. Rydym yn ceisio arian ychwanegol ar gyfer y costau datblygu hyn yn 2014-15 drwy'r amcangyfrif hwn.

2.10 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.34, mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o strwythur ein Huwch Dîm Arwain, a all arwain at newidiadau pellach mewn costau staff maes o law.

### Costau swyddfa

2.11 Rhagwelwn y bydd ein gwariant cyffredinol ar swyddfeydd yn gostwng 4.2 y cant o ganlyniad i gyflawni arbedion effeithlonrwydd er gwaethaf costau ynni, rhent ac ardrethi sylfaenol cynyddol.

## Arddangosyn 5 - Amcangyfrif o incwm a gwariant refeniw 2014-15

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau sy'n gysylltiedig â staff | 16,118 | 16,230 |
| | Costau swyddfa | 983 | 941 |
| | Costau dysgu a datblygu | 292 | 407 |
| | Costau TG | 588 | 601 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau[3] | 5,497 | 5,336 |
| | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **23,478** | **23,515** |
| Incwm | Ffioedd archwilio ac arolygu | 13,421 | 13,668 |
| | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 1,439 | 1,170 |
| | Ffioedd ardystio grantiau llywodraeth leol | 2,441 | 2,501 |
| | Incwm arall | 353 | 300 |
| | Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 413 | 0 |
| | **CYFANSWM Y FFIOEDD AC INCWM ARALL** | **18,067** | **17,639** |
| **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy'r Gronfa Gyfunol** | | 5,411 | 5,876 |
| **Ariannwyd gan:** | | | |
| • **Gofyniad adnoddau refeniw – prif amcangyfrif** | | 5,224 | 5,876 |
| • **Gofyniad adnoddau refeniw – amcangyfrif atodol** | | 187 | 0 |
| **Cyfanswm y gofynion adnoddau** | | 5,411 | 5,876 |

3 Mae cyflenwadau a gwasanaethau yn cynnwys taliadau i gwmnïau contractwyr am wasanaethau archwilio (£3,048,000) a TAW anadenilladwy (£900,000).

### Costau dysgu a datblygu

**2.12** Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd) yn rhoi pwys mawr ar feithrin gwybodaeth a sgiliau ein holl staff. Mae'n hollbwysig bod gan ein staff yr hygrededd mwyaf yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd felly'n ymrwymedig i fuddsoddi mewn datblygiad staff, ac yn benodol i ddatblygu graddedigion dan hyfforddiant. Mae'r ymrwymiad hwn yn cefnogi ein gwaith cynllunio'r gweithlu tymor hwy, tra'n cynnig cyfleoedd i raddedigion yng Nghymru y gallai fod angen iddynt fel arall adael Cymru i chwilio am gyflogaeth a hyfforddiant proffesiynol. Mae'r cynnydd a ragwelir yn ein costau hyfforddi ar gyfer 2014-15 yn deillio o fuddsoddiad ychwanegol mewn graddedigion dan hyfforddiant.

**2.13** Rydym wrthi'n ystyried cyfleoedd i gynyddu nifer y graddedigion dan hyfforddiant a gaiff eu recriwtio gennym ymhellach yn ogystal â ffyrdd eraill y gallwn helpu pobl ifanc i gael gwaith, drwy, er enghraifft, gynnig cyfleoedd lleoliadau i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol.

### Costau TG

**2.14** Rydym wedi gohirio elfen fach o wariant ar TG o 2013-14 i 2014-15, sy'n arwain at rywfaint o gynnydd yn y gymhariaeth yn Arddangosyn 5. Heb y penderfyniad hwn i ohirio, byddai costau TG yn gostwng £28,000 (4.8 y cant) rhwng y ddwy flwyddyn.

### Cyflenwadau a gwasanaethau

**2.15** Mae cyflenwadau a gwasanaethau yn cynnwys ystod eang o weithgareddau. Gwnawn sylwadau isod ar y ddwy elfen fwyaf sylweddol - TAW anadenilladwy (£900,000) a thaliadau i gwmnïau contractwyr (£3,048,000).

### TAW anadenilladwy

**2.16** Mae'r cynnydd yn y llinell costau hon yn deillio o ostyngiad sylweddol yn swm y TAW y gallwn ei hadennill ar ein gwariant yn dilyn dyfarniad ar statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013. Bydd y dyfarniad hwn hefyd yn gymwys i Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014. Fel y nodwyd mewn amcangyfrifon blaenorol, cyn 1 Ebrill 2013 roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn codi TAW ar ffioedd archwilio ar gyfer y GIG a chyrff llywodraeth leol gyda dealltwriaeth a chytundeb CThEM. Ym mis Rhagfyr 2012, fodd bynnag, penderfynodd CThEM o 1 Ebrill 2013 na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol godi TAW ar ei waith. Roedd y dyfarniad hwn yn golygu na allwn godi TAW ar y mwyafrif llethol o'n gwaith, ac oherwydd hynny na allwn adennill y TAW a godir arnom am nwyddau a gwasanaethau. Mae'r newid hwn i statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol wedi arwain at gynnydd o £600,000 yn ein sylfaen gostau flynyddol, sy'n cyfrif am gynnydd mewn TAW anadenilladwy. Nododd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar amcangyfrif 2013-14 yr Archwilydd Cyffredinol yr anawsterau ariannu a fyddai'n deillio o'r newid hwn i statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a'r posibilrwydd y byddai'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gynyddu ei ffioedd archwilio neu geisio arian ychwanegol o'r Gronfa Gyfunol yn 2013-14 ac mewn blynyddoedd i ddod er mwyn talu'r costau.

**2.17** Er y gallwn ymdopi â chynnydd cyffredinol mewn costau drwy sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd parhaus, ni allwn wneud arbedion ar y lefel hon yn y byrdymor o'n sylfaen gostau, gan ei bod yn sefydlog i raddau helaeth oherwydd yr angen i gyflawni rhaglen waith statudol benodol. Yn anffodus, oherwydd y dyfarniad hwn, nid oes gennym unrhyw ddewis ond ceisio arian ychwanegol.

Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 2.25, rydym yn ceisio gwneud hyn drwy newid lefelau ffioedd yn hytrach na thrwy wneud cais i'r Gronfa Gyfunol.

### Taliadau i gwmnïau contractwyr

2.18 Yn yr un modd ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU, gweithredwn farchnad gymysg o gyflenwyr ar gyfer cyflawni gwaith archwilio er mwyn cymharu ansawdd dulliau archwilio a meincnodi gwerth am arian. Yn dilyn proses gaffael OJEU, yn ogystal â staff Swyddfa Archwilio Cymru, rydym ar hyn o bryd yn defnyddio tri chwmni a fydd yn cyflawni 22 y cant o'n gwaith archwilio mewn prif gyrff yn ystod 2014-15.

2.19 Adlewyrchir effaith y gwaith hwn ar ein cyllideb yn Arddangosyn 6. Y costau gwerth £3,048,000 a adlewyrchir yn Arddangosyn 6 yw'r elfen unigol fwyaf o'n cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau.

2.20 At hynny, rydym hefyd yn defnyddio tri chwmni arall i gynnal adolygiadau o dros 730 o gynghorau cymuned a thref a chyrff bach eraill (gwerth incwm: £248,000).

2.21 Bydd y trefniadau contractio presennol yn cwmpasu archwiliadau o flwyddyn ariannol 2013-14. Bydd y Bwrdd yn fuan yn ystyried ein strategaeth gontractio o 2014-15. Un o'r materion y bydd angen i'r Bwrdd ei ystyried yw effaith y dyfarniad TAW ar ein strategaeth gontractio, gan fod tua dwy ran o dair o'r TAW anadenilladwy gwerth £900,000 yn ymwneud â thaliadau i gwmnïau contractio.

## Incwm a chyllid

### Astudiaethau llywodraeth leol

2.22 O ganlyniad i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ni chaniateir i astudiaethau llywodraeth leol a gynhelir o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 gael eu hariannu drwy ffioedd archwilio. At hynny, ni ellir defnyddio arian grant Llywodraeth Cymru a ddarperir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) ar gyfer unrhyw beth ar wahân i waith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 1999.

### Arddangosyn 6 - Effaith defnyddio cwmnïau contractwyr ar gyllideb 2014-15

| Elfen o'r gyllideb | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Incwm o waith a wnaed gan gwmnïau | | 4,022 |
| Taliadau i gwmnïau | 3,048 | |
| TAW anadenilladwy ar y taliadau uchod | 610 | |
| Cyfanswm y costau | **3,658** | (3,658) |
| Cyfraniad net i Swyddfa Archwilio Cymru | | **364** |

2.23 Hyd yma, ariannwyd astudiaethau gwella llywodraeth leol (adran 41) yn rhannol drwy ffioedd ac yn rhannol drwy grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly, bydd angen i holl astudiaethau llywodraeth leol gael eu hariannu drwy'r Gronfa Gyfunol o 1 Ebrill 2014.

2.24 Yn bwysig ddigon, caiff yr arian ychwanegol hwn gwerth tua £530,000 ei wrthbwyso'n gyfan gwbl gan ostyngiadau mewn ffioedd archwilio llywodraeth leol (£353,000) a grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (£177,000), felly erys ein cais cyffredinol am arian bloc Cymru yn ddigyfnewid.

## Ffioedd archwilio

2.25 Fel y nodwn ym mharagraff 2.2, rydym wedi penderfynu y bydd angen i incwm o ffioedd archwilio gynyddu £600,000 y flwyddyn (cynnydd cyfartalog o 3.8 y cant) i gwmpasu'r costau TAW ychwanegol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, fodd bynnag, cofiwn fod ffactorau cydbwyso a fydd yn lliniaru unrhyw effaith i'r rhan fwyaf o'r cyrff a archwilir gennym, sef:

a **Y GIG:** Ni all cyrff y GIG adennill TAW a godir arnynt. Cyn y dyfarniad hwn, roedd y TAW o 20 y cant a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn gost wirioneddol i gyrff y GIG. Ers 1 Ebrill 2013, mae cyrff y GIG felly wedi cael budd o ostyngiad o 16.7 y cant i bob diben, a fyddai'n gwneud mwy na gwrthbwyso unrhyw gynnydd mewn ffioedd archwilio.

b **Llywodraeth leol:** Ar 31 Mawrth 2013, roedd cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â gweithgarwch llywodraeth leol gwerth £1.2 miliwn. Mae amcangyfrif atodol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2013-14 yn bwriadu defnyddio £413,000 o'r cronfeydd wrth gefn hyn i leihau'r galw ar y Gronfa Gyfunol, a fydd yn gadael balans a ragwelir o £800,000 yn y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2013. Yn dilyn cychwyn darpariaethau perthnasol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ar 1 Ebrill 2014, ni fyddwn yn gallu cadw'r cronfeydd wrth gefn hyn ac felly cynigiwn y dylid gwneud ad-daliadau i gyrff llywodraeth leol hyd at derfyn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gennym (fel y gwnaeth y Comisiwn Archwilio pan ddaeth i ben). Ar sail rhagamcaniadau presennol, byddai ad-daliad o'r fath i bob diben yn gwrthbwyso gwerth dwy flwyddyn o'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd.

2.26 Mae'r newid cyffredinol i ffioedd archwilio hefyd yn adlewyrchu gostyngiad o £353,000 sy'n deillio o ailgydbwyso dulliau ariannu ar gyfer astudiaethau llywodraeth leol fel y crynhoir ym mharagraffau 2.22 i 2.24.

2.27 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn cyflwyno sylfaen ddiwygiedig ar gyfer pennu ffioedd ar gyfer ein holl waith archwilio. Rydym wrthi'n adolygu effaith y newidiadau hyn, a all arwain at gynnydd mewn ffioedd i rai cyrff a archwilir ynghyd â gostyngiadau cyffredinol cyfatebol mewn ffioedd i gyrff eraill a archwilir. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi yn y cynllun ffioedd y mae'n ofynnol iddi ei baratoi sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar ffioedd archwilio.

2.28 Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gyrff a archwilir gennym, yn ogystal â Chydffederasiwn y GIG a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i egluro'r newidiadau hyn yn fanylach.

### Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

**2.29** Mae'r gostyngiad o £269,000 yn Arddangosyn 5 yn adlewyrchu'r ail-gydbwyso mewn perthynas â dulliau ariannu astudiaethau llywodraeth leol fel y crynhoir ym mharagraffau 2.22 i 2.24 a gwahaniaethau amseru o ran cyflawni gwaith rhwng blynyddoedd ariannol.

### Ardystio grantiau llywodraeth leol

**2.30** Mae lefel y gwaith hwn mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff a archwilir sy'n ymwneud â'r cynlluniau hynny. Felly, mae lefel yr incwm a gawn o'r ffynhonnell hon yn dibynnu ar alw, a'r amcangyfrif gorau y gallwn ei roi o'r incwm y disgwyliwn ei gael o'r gwaith hwn yn 2014-15 yw £2,501,000. Caiff ffioedd o'r fath eu pennu i adennill cost lawn y gwaith, ond ni fyddant yn fwy na'r gost honno.

### Incwm arall

**2.31** Mae'r gostyngiad o £53,000 mewn incwm arall a ddangosir yn Arddangosyn 5 yn ymwneud yn bennaf â gostyngiad mewn incwm ar gyfer secondiadau staff a fydd yn digwydd yn 2014-15.

### Arian o'r Gronfa Gyfunol

**2.32** Nid ydym yn ceisio unrhyw gynnydd yn ein harian hanesyddol o £5,224,000 o'r Gronfa Gyfunol mewn perthynas â chynnydd mewn costau cyffredinol. Fodd bynnag, mae angen i ni geisio cynnydd o £652,000 o sylfaen 2013-14 i £5,876,000 er mwyn ariannu'r datblygiadau a amlinellir uchod, fel y crynhoir yn Arddangosyn 7.

### Arddangosyn 7 - Crynodeb o'r arian ychwanegol sydd ei angen

| Elfen o'r gyllideb | £'000 |
|---|---|
| Astudiaethau llywodraeth leol (paragraffau 2.22 i 2.24) | 530 |
| Datblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (paragraff 2.9) | 122 |
| Cyfanswm y cynnydd | 652 |

## Meysydd lle y ceir ansicrwydd

### Treuliau teithio a chynhaliaeth cyflogeion

**2.33** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei amcangyfrif ar gyfer 2013-14 ei bod yn bosibl bod y ffordd y mae angen i staff Swyddfa Archwilio Cymru weithio wedi arwain at sefyllfa lle mae rhai wedi sefydlu lleoliadau gwaith parhaol yn swyddfeydd y cyrff a archwilir gennym. Gellir sefydlu man gwaith parhaol at ddibenion treth drwy dreulio llawer o amser mewn corff a archwilir - fel arfer mwy na 40 y cant o'r wythnos waith am gyfnod o fwy na dwy flynedd. Mae'n bosibl y dylid talu treth ac yswiriant gwladol mewn perthynas â thaliadau ar gyfer treuliau yr eir iddynt wrth deithio i swyddfeydd archwilio mewn sefyllfaoedd o'r fath. Rydym yn ymwybodol bod cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac asiantaeth archwilio arall yn y DU wedi cael problemau tebyg. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau â CThEM er mwyn datrys y mater hwn. Os bydd CThEM yn dyfarnu y dylem fod wedi didynnu TWE wrth dalu'r treuliau hyn, efallai y bydd angen i mi geisio refeniw ac adnoddau arian parod ychwanegol drwy amcangyfrif atodol.

### Ailstrwythuro Uwch Dîm Arwain

2.34 Mewn ymateb i newidiadau i'n trefniadau llywodraethu, sy'n deillio o gyflwyno Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rydym yn cynnal adolygiad o strwythur ein huwch dîm arwain, a all arwain at ddileu swyddi neu ymadawiadau gwirfoddol yn 2014-15. I'r graddau na allwn ariannu costau'r ymadawiadau hyn o gronfeydd sy'n bodoli eisoes, efallai y bydd angen i ni geisio arian ychwanegol drwy amcangyfrif atodol.

### Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

2.35 Yn ogystal â'r costau datblygu a nodwyd ym mharagraff 2.9, rydym wedi gwneud amcangyfrif pellach y bydd gwerth tua £130,000 o gostau parhaus o ddechrau 2015 ar gyfer gwaith adolygu mewn cyrff a archwilir i asesu sut maent yn ymateb i ofynion disgwyliedig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, unwaith y caiff ei ddeddfu. Gan nad yw'r Bil wedi ei gyhoeddi eto, mae'n anodd iawn asesu union lefel y gweithgarwch fydd ei angen a'r costau cysylltiedig, ond disgwyliwn ar hyn o bryd i'r costau hynny gael eu hadennill o ffioedd archwilio.

### Ansicrwydd ynghylch llwyth gwaith yn y dyfodol

2.36 Fel y crynhoir isod, rydym yn ymwybodol o sawl datblygiad sy'n peri cryn ansicrwydd ynghylch ein llwyth gwaith, ein hincwm a'n costau yn y dyfodol.

### Grantiau Ewropeaidd

2.37 Caiff tua thri chwarter y ceisiadau ar gyfer y cylch presennol o arian strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru eu gwneud gan gyrff yn y sector cyhoeddus. Gan fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisiadau hyn gael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol neu archwilydd a awdurdodwyd ganddo, rydym yn ardystio cynifer â 140 o geisiadau bob blwyddyn, gan gynhyrchu tua £500,000 drwy ffioedd archwilio.

2.38 Mae'n debygol y bydd y llwyth gwaith hwn yn newid wrth i'r cylch newydd o raglenni ariannu gael ei gyflwyno ar gyfer 2014-2020. Deallwn fod WEFO yn datblygu trefniadau ardystio newydd a fydd yn cyflwyno 'rhestr ddethol' o archwilwyr y bydd yn eu cymeradwyo. Yn unol â hynny, disgwyliwn y bydd yn rhaid i ni dendro am waith o'r fath yn y dyfodol a bydd cynnydd yn nifer y cyflenwyr yn golygu y gall ein llwyth gwaith leihau. Efallai y bydd angen i ni hefyd addasu'r 'cymysgedd sgiliau' a gymhwyswn at y gwaith hwn, yn dibynnu ar y fanyleb archwilio derfynol ac ystyriaethau o ran prisiau.

### Cronfa Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop

2.39 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu cyflwyno newidiadau yn ymwneud â sut y caiff y gwaith hwn ei gyflawni. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, yr ydym yn cyflawni'r gwaith hwn ar ei rhan, ynghylch goblygiadau'r newidiadau arfaethedig hyn..

## Cyllideb cyfalaf 2014-15

**2.40** Nodir ein hamcangyfrif o'r gwariant cyfalaf yr ydym yn ceisio arian ar ei gyfer yn Arddangosyn 8.

### Arddangosyn 8 - Cyllideb cyfalaf

| | £'000 |
|---|---:|
| Cyswllt â'r rhyngrwyd | 15 |
| Cyfarpar fideo-gynadledda | 25 |
| Systemau storio ar ddisg | 40 |
| Gweinyddwyr newydd yn lle hen rai | 18 |
| **Cyfanswm y gwariant cyfalaf** | **98** |

**2.41** Bwriedir i'r buddsoddiad a gynlluniwyd yn ein seilwaith TG fynd i'r afael â'r canlynol:

**a** Mae ein cyswllt presennol â'r rhyngrwyd yn wynebu pwysau mawr ar adegau prysur yn ystod y diwrnod gwaith oherwydd yr angen cynyddol i drosglwyddo data, er enghraifft yn sgil y galw cynyddol am delegynadledda er mwyn arbed costau teithio mwy helaeth. Er mwyn ymdopi â'r angen cynyddol hwn yn y tymor hwy, bydd angen uwchraddio'r cyswllt â'r rhyngrwyd a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd a gwella ein cyfleusterau fideo-gynadledda.

**b** Mae'r gweinyddion sy'n bodoli eisoes yn dyddio ac nid ydynt yn ddigonol mwyach, yn arbennig o ran ategu cofau i ateb y galw a ragwelir am systemau canolog. Felly bwriadwn osod gweinyddion newydd yn eu lle yn 2014-15.

**c** Mae galw cynyddol am systemau storio ar ddisg, yn arbennig ar gyfer storio negeseuon e-bost canolog, a rhaid i hyn gael ei efelychu'n ddiogel gyda'n canolfan adfer ar ôl trychineb oddi ar y safle.

**2.42** Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio amrywiaeth o systemau TG i gynllunio, rheoli, cofnodi a storio ein gwaith archwilio. Rydym wedi rhoi prosiect ar waith i nodi a oes un cynnyrch penodol a all gwmpasu'r swyddogaethau amrywiol hyn a'n helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith. Os byddwn yn nodi cynnyrch addas, efallai y bydd angen i ni geisio cyfalaf ychwanegol drwy amcangyfrif atodol ar gyfer 2014-15.

## Gofyniad arian parod net 2014-15

**2.43** Ceir crynodeb o'n gofyniad arian parod net at ddibenion refeniw a chyfalaf yn Arddangosyn 9.

### Arddangosyn 9 - Gofyniad arian parod net

| | £'000 |
|---|---:|
| Refeniw | 5,876 |
| Cyfalaf | 98 |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net 2014-15** | **5,974** |

# Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a’r archwilwyr a benodir ganddo

Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a’r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol:

| | |
|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratowyd gan lywodraeth ganolog a chyrff iechyd | Wyth cyfrif a baratowyd gan Lywodraeth Cymru; 31 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; saith corff iechyd; a thair o Ymddiriedolaethau'r GIG. |
| Archwilio cyfrifon a baratowyd gan gyrff llywodraeth leol | 22 awdurdod unedol; pedwar comisiynydd heddlu a throseddu a phedwar prif gwnstabl; tri awdurdod tân ac achub; un ymddiriedolaeth prawf; tri awdurdod parc cenedlaethol; un bwrdd draenio mewnol; wyth cronfa bensiwn; dros 730 o gynghorau tref a chymuned a chyrff bach eraill; a 19 o gydbwyllgorau. |
| Asesiadau gwella llywodraeth leol | Mae'n cynnwys archwiliadau o ran pa un a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, asesiadau i nodi pa mor debygol ydyw y cydymffurfir â dyletswyddau gwella ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnwyd mewn 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol. |
| Gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrff iechyd | Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnwyd mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 32 o gynlluniau llywodraeth leol (tua 750 o hawliadau sy'n werth tua £3.0 biliwn i gyd), ochr yn ochr â hawliadau am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd lle mae cyfanswm gwerth blynyddol yr hawliadau tua £300 miliwn. |
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian | Fel arfer, cynhelir 12 o archwiliadau, astudiaethau ac allbynnau eraill yn ystod blwyddyn galendr, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt ‘system gyfan’ neu o safbwynt ‘trawsbynciol’, lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. |
| Gweithgareddau pwysig eraill | Mae’n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o’r Gronfa Gyfunol;<br>• gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu’r Gyfnewidfa Arfer Da;<br>• ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i’n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• cynorthwyo’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol;<br>• gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |

# Atodiad 2 - Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015

O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- **a** yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- **b** yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i'r Gronfa Gyfunol;
- **c** y swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn Nhabl 1.

### Tabl 1 - Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2014-15

| | |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol, a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | <br><br><br>5,876<br>98 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, arolygu, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a gafwyd i ariannu gwasanaethau archwilio ac arolygu; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith - at ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 17,639 |
| Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol. | 5,974 |

Mae Tabl 2 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015.

### Tabl 2 - Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 5,974 |
| Addasiadau | 0 |
| Gofyniad arian parod net | 5,974 |

# Atodiad 3 - Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar waith y Tîm Cyfnewid Arfer Da

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Dyddiad: 2 Hydref 2013
Ein cyf: HVT/1954/fgb
Tudalen: 1 o 3

Annwyl Darren

**DIWEDDARIAD AR WAITH TÎM Y GYFNEWIDFA ARFER DA, SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Roeddwn i'n meddwl y byddai'n gyfle da i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar weithgareddau ac effaith Tîm y Gyfnewidfa Arfer Da (GPX) yn ystod y chwe mis diwethaf. Byddwch yn cofio bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cymeradwyo dyraniad o £250,000 ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyfnewid arfer da fel rhan o'm Hamcangyfrif ar gyfer 2013-14. Mae Tîm y Gyfnewidfa Arfer Da wedi bod yn gweithio'n galed gyda chydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru a sefydliadau partner i sicrhau ein bod yn defnyddio'r arian ychwanegol hwn yn y ffordd orau.

Nod sylfaenol ein gwaith arfer da yw hyrwyddo gwelliant ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, drwy wella cyfnewid gwybodaeth a dysgu a rennir. Os yw defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi yn fwy gwybodus am yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn mannau eraill, maent mewn sefyllfa well i herio'r status quo a gwneud newidiadau i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae tîm y Gyfnewidfa Arfer Da wedi canolbwyntio ei waith ar feysydd sy'n berthnasol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, gan nodi cyfleoedd i sicrhau gwell gwerth am arian a gwella darpariaeth gwasanaethau. Er enghraifft, yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, aethpwyd i'r afael â meysydd megis gwella presenoldeb, rheoli absenoldeb oherwydd salwch a threfniadau gweithio hyblyg fel rhan o ymgysylltu â gweithwyr. Mae'r ffocws ar hyn o bryd yn ymwneud ag asedau, adeiladau a rheoli fflyd o gerbydau a'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2014 yn cynnwys ystyried manteision posibl rhoi rhai gwasanaethau cyhoeddus ar-lein a gweithgareddau i symud gwariant cyhoeddus i feysydd lle y gall cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar atal costau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus nes ymlaen.

Mae'r dulliau a ddefnyddir gan dîm y Gyfnewidfa Arfer Da  yn gyfuniad o ddulliau sydd wedi ennill eu plwyf, ochr yn ochr â dulliau newydd ac arloesol. Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasu fel dulliau i ni ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu darparu, ac rydym wedi recriwtio dau aelod newydd o staff i gynyddu ein gallu i gyflawni hyn. O ganlyniad, bellach mae gennym gronfa ar-lein gynyddol fawr o ddeunydd arfer da ac adnoddau eraill i bobl gael mynediad iddynt a'u defnyddio. Mae'r deunydd hwn hefyd yn gweithredu fel ffocws ar gyfer rhwydwaith cynyddol o bobl sydd â diddordeb mewn sicrhau gwelliannau a gwell gwerth am arian ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Er mai dim ond ers mis Ebrill 2013 y mae tîm estynedig y Gyfnewidfa Arfer Da wedi bod yn gweithredu'n llawn, mae nifer o feysydd yn dangos arwyddion calonogol o botensial cynyddol ei waith yn y dyfodol:

**Defnydd o'r wefan.** Cafwyd dros 33,000 achos o bobl yn edrych ar dudalennau'r Gyfnewidfa Arfer Da ar y we ers dechrau'r flwyddyn sy'n cyfateb i dros 150 achos bob diwrnod gwaith. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod y rhain yn bobl sy'n chwilio am enghreifftiau o arfer da, astudiaethau achos a deunyddiau eraill y maent yn eu defnyddio yn eu sefydliadau eu hunain. Er enghraifft, mae canllaw a gynhyrchwyd gennym ar sut i adolygu trefniadau rheoli fflyd cerbydau yn parhau i gael ei lawrlwytho gan Reolwyr Fflyd gwasanaethau cyhoeddus a'i ddefnyddio fel offeryn gwaith ymarferol.

**Seminarau Dysgu a Rennir.** Y rhain o hyd yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol. Mae yna adborth cadarnhaol iawn yn gyson i'r dull unigryw a ddatblygwyd gan dîm y Gyfnewidfa Arfer Da. Mae rhwng 80 a 96 y cant o fynychwyr wedi dweud bod seminarau dysgu a rennir yn 'hynod ddefnyddiol' iddynt yn eu swyddi. Yn bwysicaf oll, mae'r seminarau hefyd yn arwain at newidiadau a gwelliannau sy'n cael eu cofnodi i ddangos eu heffaith. Er enghraifft , fe wnaeth y seminarau rheoli ynni diweddar arwain at weithgarwch sylweddol i leihau costau ynni a dŵr yn adeiladau Llywodraeth Leol, yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol o ddod â'r bobl iawn at ei gilydd yn yr amgylchiadau cywir.

Mae enghreifftiau eraill o effaith y seminarau yn cynnwys rhannu achosion busnes, polisïau a chanllawiau rhwng sefydliadau. Mae hyn yn golygu nad yw adnoddau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu i ddatblygu deunydd o'r newydd pan fo pobl eraill eisoes wedi'u creu.

Ers dechrau'r flwyddyn rydym wedi cynnal wyth o seminarau dysgu a rennir, gyda 322 o bobl (40 ar gyfartaledd) yn dod iddynt. Yn ystod 2014-15 rydym yn bwriadu cynyddu lefel y gweithgarwch hwn yn sylweddol, gan gwmpasu pynciau megis ymyrraeth gynnar a symud gwasanaethau ar-lein.

Canlyniad arall o lwyddiant y seminarau dysgu a rennir yw bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cysylltu â Thîm y Gyfnewidfa Arfer Da i gydweithio i ddarparu digwyddiadau tebyg. Er enghraifft, bydd seminar yn canolbwyntio ar Lywodraethu yn digwydd yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymddiriedolwyr mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Elusennau, ac rydym yn gobeithio y bydd yn atgyfnerthu'r negeseuon sydd wedi deillio o'n gwaith grant diweddar. Ymhlith y seminarau a'r digwyddiadau pellach sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill 2013-14 mae:

- Seminarau Dysgu a Rennir Rheoli Fflyd a Rheoli Adeiladau, fel rhan o'n cyfres Rheoli Asedau - Hydref 2013 yn Ne Cymru ac Ionawr 2014 yng Ngogledd Cymru.

- Cynhadledd Craffu Cymru Gyfan, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Ysgol Fusnes Caerdydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Tachwedd 2013 yng Nghaerdydd.
- Cyfrannu tuag at wella ôl-troed digidol Cynhadledd Ymgysylltu â Gweithwyr Cyflogedig Llywodraeth Cymru - Tachwedd 2013 yng Nghaerdydd.
- Seminarau Datblygu Cynaliadwy, mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy - Chwefror 2013, Gogledd a De Cymru.
- Cynhadledd Symud Gwasanaethau Ar-lein, mewn cydweithrediad â'r Scottish Improvement Agency a sefydliadau eraill yn yr Alban - Mawrth 2014.

**Defnyddio Technoleg Ddigidol i gyrraedd ymhellach ac ymgysylltu.** Mae'r tîm wedi bod yn defnyddio Twitter i estyn allan ymhell y tu hwnt i'r rhai sy'n mynychu ein seminarau. Mewn rhai achosion, mae'r wybodaeth a anfonwyd allan trwy Twitter yn ystod seminar wedi cyrraedd dros 35,000 o bobl - ymhell y tu hwnt i'r 40 yn yr ystafell. Mae unigolion dylanwadol hefyd o'r tu allan i Gymru ac ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, wedi bod yn ymuno â'r drafodaeth gan daflu goleuni pellach a darparu gwybodaeth sylweddol gan gyfoethogi'r seminarau.

Yn ddiweddar, rydym wedi ychwanegu Blog, sydd yn ôl pob golwg yn tyfu mewn poblogrwydd ac yn cynhyrchu sgyrsiau sy'n helpu i adeiladu perthynas ac yn annog gwelliannau.

**Dod â phrofiad o'r tu allan i Gymru.** Mae tîm y Gyfnewidfa Arfer Da wedi sicrhau arbenigedd o'r tu allan i Gymru ar sawl achlysur. Mae hyn wedi cynnwys sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector megis Diageo ac Emirates Aluminium ynghyd â'r Scottish Improvement Service. Mae cyrff archwilio eraill yn y DU ac Iwerddon wedi cydnabod gwerth yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac yn dechrau anfon cynrychiolwyr i Gymru i fynychu digwyddiadau dysgu a rennir tîm y Gyfnewidfa Arfer Da yn amlach.

**Mesur Effaith.** Un o'r meysydd mae'r Tîm yn gweithio arno yw sut i fesur effaith y gwaith y mae'n ei wneud mewn maes cymhleth sy'n datblygu'n gyflym. Maent yn datblygu nifer o ddulliau o fesur gweithgaredd ac effaith a byddaf yn rhannu'r rhain gyda chi unwaith y byddant wedi'u datblygu ac wedi eu profi.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi blas i chi ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni mewn cyfnod cymharol fyr, a'r potensial ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni yn y dyfodol. Fel y soniwyd, mae croeso mawr i Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddod i unrhyw un o ddigwyddiadau arfaethedig y Gyfnewidfa Arfer Da neu yn wir i ymgysylltu â'r Tîm ar Twitter neu drwy Flog y Gyfnewidfa Arfer Da.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**